CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER
AUTUMN

04

Active Citizenship for Wales and the World

DEBATERS OF THE WORLD UNITE IN WALES

In an exciting move towards encouraging global dialogue, Wales will host the World Schools Debating Championships in 2006. The Welsh Centre for International Affairs, of which CEWC-Cymru is the schools arm, will have overall responsibility for the Championships, working with members of the Wales Debating Federation to ensure that it makes a lasting impression on all those who participate.

We anticipate that debaters, coaches and adjudicators from over 30 countries will take part in the competition. Although participants will be based in Cardiff, we intend to bring world-class debates to schools and colleges throughout Wales. In addition to the debating element of the event, participants will sample Welsh culture, language, natural beauty and hospitality.

CEWC-Cymru has taken a team of 5 debaters to the global competition for the past 13 years, selected through our Wales Schools Debating Championships. Although the title of World Champions has eluded Welsh debaters so far, participation has had a positive impact on the individuals involved, many of whom have gone on to high-profile professional careers, as well as being very skilled university debaters.

If you would like your school or college to be hosts of the 2006 World Championships, or if you can lend support to the organising committee, please contact Martin Pollard, the Convenor, at martinpollard@wcia.org.uk.

ALL YOU EVER WANTED TO KNOW ABOUT DEBATING, BUT WERE TOO AFRAID TO ASK…

Over 50 schools and colleges have participated in the 2004 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships. To tie in with it, CEWC-Cymru has published a new edition of its Debating Handbook. This contains a wealth of information on structuring speeches, working as a team, rebutting your opponents' arguments and effective debating style. It is aimed at debaters, coaches and adjudicators, and also includes advice for those wishing to set up a debating club for their school, college or youth group. Copies are available at £3 (plus postage): contact Sheila Davies (sheiladavies@wcia.org.uk) to place your order.

DEMOCRACY MOVES ON TO THE NEXT PHASE

The Electoral Commission

Kate Wolstenholme: looking forward to developing democracy in schools

Since the beginning of the school year, Kate Wolstenholme has been working as CEWC-Cymru's Assistant Education Officer. Part of her role is to co-ordinate *Training for Democracy*, our second project funded by the Electoral Commission. Following on from last year's *Your Say* work, she is developing training for teachers in the field of education for democracy and the establishment of successful school councils.

Kate studied English Literature at the University of Wales, Aberystwyth, before training to be a teacher at Oxford Brookes University. She has taught at a number of schools in the Oxford area and specialises in education through the medium of drama. If you wish to get involved in *Training for Democracy*, or to be included in an e-mail network on democracy in schools, contact katewolstenholme@wcia.org.uk.

ENQUIRING MINDS

CEWC-Cymru has recently begun its Philosophy for Children (P4C) project. Our Education Officer, Martin Pollard, has been trained by SAPERE (Society for the Advancement of Philosophical Enquiry in Education) to engage young people in philosophical discussions, and has conducted a number of these in Blaenau Gwent primary schools. He has also visited P4C practitioners in Cumbria, Northumberland and Clackmannanshire to share ideas and compare existing methodologies. Ultimately, CEWC-Cymru will produce classroom materials and teacher training resources, demonstrating how P4C can be used to advance Values and Attitudes in the PSE Framework.

To get involved in the project, contact martinpollard@wcia.org.uk.

SHARING IDEAS

CEWC-Cymru was one of a number of Welsh organisations represented at *Educating the Responsible Citizen*, an international conference held in Cardiff from 4 to 6 November. The event showcased recent initiatives in citizenship education, including our work on human rights and other global issues. It also provided an opportunity for colleagues from Scotland, England, Northern Ireland and the Republic of Ireland to share their experiences and ideas.

CEWC-Cymru provides workshops and talks on a range of global issues, including children's rights, democracy, fair trade and refugees. This service is free for member schools and colleges, with a more limited service available to non-members.

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk www.cewc-cymru.org.uk

UNDERSTANDING CONFLICT

There is still time to enter *Wales and the Spanish Civil War*, CEWC-Cymru's current competition for students. We are asking young people aged 11 to 18 to consider the role played by Welsh men who fought for the International Brigade during the 1936-39 war in Spain, and to do one of the following:

1) Write an essay on the involvement of Wales in the war; *or*

2) Write several diary entries as if you were a Welsh member of the International Brigade, describing events and how you think you might be feeling; *or*

3) Many people who went on to be famous in other fields were involved in the International Brigade. Research one of these and write about their involvement and the impact it had on their lives.

Prizes of £150, £100 and £50 will be awarded for the most effective or evocative entries. The competition is supported by the Welsh Centre for International Affairs, which has a fund for this, established by former International Brigaders from Wales. It marks the UK International Brigade Memorial Trust's annual meeting, held in the Temple of Peace in October. For more information, contact cewc@wcia.org.uk.

CELEBRATING GLOBAL CITIZENSHIP

Over 250 students took part in *Joining the Planet*, our first 4-day festival of global citizenship. The July event included opportunities for all age groups from 5 to 18, on themes such as cultural diversity, human rights, world trade and conflict resolution. *Joining the Planet* received many positive comments from teachers and students, who found the drama, dance and music based activities particularly stimulating.

CEWC-Cymru is grateful to HSBC for its sponsorship of *Joining the Planet*. We would also like to thank all those who facilitated workshops during the event.

FOCUS ON… MODEL UNITED NATIONS SECURITY COUNCIL CONFERENCES

Each year, CEWC-Cymru holds 7 Model United Nations meetings around Wales. These simulations of international discussions provide a valuable opportunity for 14-18 year olds to improve their skills in communication, negotiation, research and global citizenship. This year we are focusing on the role of the Security Council, the UN body with responsibility for peace and security. In the Autumn term, students considered the situations in Afghanistan and Sudan, with the objective of forming internationally acceptable solutions to the challenges facing these nations, while working within the structure and rules of Security Council procedures.

Four further Model UN meetings will be held in the Spring term. If your school, college or youth group would like to get involved, contact us for further information.

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR
HYDREF

04

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

DADLEUWYR Y BYD YN DOD YNGHYD YNG NGHYMRU

Dyma gam cyffrous tuag at annog cyd-drafod byd-eang: yn 2006, Cymru fydd yn croesawu Pencampwriaeth Ddadlau Ysgolion y Byd. Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (mae CEWC-Cymru yn adran ysgolion iddi) fydd yn gyffredinol gyfrifol am y Bencampwriaeth, gan weithio gydag aelodau o Ffederasiwn Dadlau Cymru i sicrhau y bydd yn gwneud cryn argraff ar y rhai fydd yn cymryd rhan.

Rydym yn rhagweld y bydd dadleuwyr, hyfforddwyr a beirniaid o dros 30 o wledydd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon. Er mai yng Nghaerdydd y bydd y timau'n aros, rydym yn bwriadu dod â dadleuon o safon byd i ysgolion a cholegau trwy Gymru. Yn ogystal ag elfen ddadlau'r digwyddiad, bydd y timau yn profi diwylliant, iaith, a harddwch Cymru, heb sôn am ei chroeso cynnes.

Bu CEWC-Cymru yn mynd â thîm o 5 dadleuydd i'r gystadleuaeth fyd-eang hon ers 13 mlynedd. Dewisir aelodau'r tîm trwy Bencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru (a drefnir gennym ni). Er nad yw dadleuwyr Cymru wedi cipio teitl y Pencampwyr Byd eto, cafodd y profiad o gymryd rhan ddylanwad positif ar yr unigolion yma. Aeth llawer ymlaen at yrfaoedd proffesiynol amlwg, ac at fod yn ddadleuwyr medrus iawn dros eu prifysgolion.

Os ydych yn awyddus i'ch ysgol neu goleg groesawu Pencampwriaethau Byd 2006, neu os gallwch gynnig cymorth i'r pwyllgor trefnu, cysylltwch â'r Cynullydd, Martin Pollard ar martinpollard@wcia.org.uk.

DOES DIM DADLAU: MAE HWN YN LLYFR SY'N WERTH EI GAEL

Mae dros 50 o ysgolion a cholegau wedi cymryd rhan ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2004. I gyd-fynd â hyn, mae CEWC-Cymru wedi cyhoeddi argraffiad newydd o'i Lawlyfr Dadlau. Mae hyn yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth am sut i lunio strwythur i araith, weithio fel tîm, wrthbrofi dadleuon eich gwrthwynebwyr ac arddull ddadlau effeithiol. Mae hefyd yn cynnwys cyngor i rai sydd am gychwyn clwb dadlau yn eu hysgol, goleg neu grŵp ieuenctid. Mae copïau ar gael am £3 (a chludiant): cysylltwch â Sheila Davies (sheiladavies@wcia.org.uk) i'w harchebu.

DEMOCRATIAETH YN SYMUD YMLAEN AT Y CAM NESAF

Y Comisiwn Etholiadol

Kate Wolstenholme: edrych ymlaeth i ddatblygu democratiaeth mewn ysgolion

Ers cychwyn y flwyddyn ysgol, bu Kate Wolstenholme yn Swyddog Addysg Cynorthwyol gyda CEWC-Cymru. Rhan o'i gwaith yw cydlynu *Hyfforddiant mewn Democratiaeth*, ein hail broject dan nawdd y Comisiwn Etholiadol. Gan ddilyn ar sodlau gwaith *Dweud eich Dweud* y llynedd, mae hi'n datblygu hyfforddiant i ysgolion ym maes addysg ddemocratiaeth a sefydlu cynghorau ysgol llwyddiannus.

Bu Kate yn astudio Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, cyn hyfforddi i fod yn athrawes ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen. Mae hi wedi dysgu mewn nifer o ysgolion yn ardal Rhydychen ac mae'n arbenigo ym maes addysg trwy gyfrwng drama. Os ydych am fod yn rhan o *Hyfforddiant mewn Democratiaeth*, neu gael eich cynnwys ar rwydwaith e-bost ar ddemocratiaeth mewn ysgolion, cysylltwch â katewolstenholme@wcia.org.uk.

MEDDYLIAU MINIOG

Yn ddiweddar mae CEWC-Cymru wedi dechrau ei brosiect Athroniaeth i Blant (P4C). Hyfforddwyd ein Swyddog Addysg, Martin Pollard, gan SAPERE, y Gymdeithas er Hyrwyddo Ymholi Athronyddol ym myd Addysg (Society for the Advancement of Philosophical Enquiry in Education) i annog pobl ifainc i drafod yn athronyddol, ac mae wedi cynnal nifer o'r trafodaethau hyn mewn ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent. Bu hefyd yn ymweld ag ymarferwyr P4C yng Nghymbria, Northumberland a Clackmannanshire i rannu syniadau a chymharu methodolegau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Yn y pen draw bydd CEWC-Cymru yn cynhyrchu deunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth ac adnoddau hyfforddi athrawon, gan ddangos sut y gellid defnyddio P4C i hyrwyddo Gwerthoedd ac Agweddau yn y Fframwaith ABCh.

I ddod yn rhan o'r project, cysylltwch â martinpollard@wcia.org.uk.

RHANNU SYNIADAU

Roedd CEWC-Cymru ymhlith nifer o sefydliadau Cymreig a anfonodd gynrychiolwyr i gynhadledd ryngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd rhwng 4 a 6 Tachwedd. Roedd y digwyddiad yn llwyfan i fentrau diweddar ym maes addysg ddinasyddiaeth, gan gynnwys ein gwaith ar hawliau dynol a materion byd-eang eraill. Roedd hefyd yn gyfle i gydweithwyr o'r Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon i rannu eu profiadau a'u syniadau.

Mae CEWC-Cymru yn cynnig gweithdai a sgyrsiau ar amrywiaeth o faterion sydd o bwysigrwydd byd-eang, gan gynnwys hawliau plant, democratiaeth, masnach deg a ffoaduriaid. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i ysgolion a cholegau sy'n aelodau, ac mae gwasanaeth cyfyngedig ar gael i eraill.

DEALL GWRTHDARO

Nid yw'n rhy hwyr i anfon eich cynnig i gystadleuaeth gyfredol CEWC-Cymru i ddisgyblion. Ei phwnc yw *Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen*. Rydym yn gofyn i bobl ifainc rhwng 11 a 18 oed i ystyried y rhan a chwaraewyd gan ddynion o Gymru a fu'n ymladd ar ran y Frigâd Ryngwladol yn ystod y rhyfel yn Sbaen ym 1936-9, ac i wneud un o'r canlynol:

1) Ysgrifennu traethawd am ran Cymru yn y rhyfel; *neu*

2) Ysgrifennu sawl cofnod mewn dyddiadur fel pe baech yn aelod Cymreig o'r Frigâd Ryngwladol, gan ddisgrifio digwyddiadau a sut, yn eich barn chi, y byddech yn teimlo; *neu*

3) Chwaraeodd llawer o bobl a aeth ymlaen i fod yn enwog mewn meysydd eraill ran yn y Frigâd Ryngwladol. Ymchwiliwch i hanes un ohonynt ac ysgrifennwch am eu gwaith gyda'r Frigâd a'r effaith a gafodd ar eu bywydau.

Rhoddir gwobrau o £150, £100 a £50 i'r cynigion mwyaf effeithiol neu atgofus. Noddir y gystadleuaeth gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, o'i chronfa a sefydlwyd gan gyn-aelodau o'r Frigâd Ryngwladol o Gymru. Mae'n nodi cyfarfod blynyddol Ymddiriedolaeth Goffa'r Frigâd Ryngwladol, a gynhaliwyd yn y Deml Heddwch ym mis Hydref. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â cewc@wcia.org.uk.

DATHLU DINASYDDIAETH FYD-EANG

Cymerodd dros 250 o ddisgyblion ran yn *Ymuno â'r Blaned*, ein gŵyl 4-diwrnod gyntaf i ddathlu dinasyddiaeth fyd-eang. Roedd y digwyddiad ym mis Gorffennaf yn cynnwys cyfle i bob carfan oedran o 5 i 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar themâu fel amrywiaeth ddiwylliannol, hawliau dynol, masnach byd a datrys gwrthdaro. Derbyniodd *Ymuno â'r Blaned* lawer o sylwadau cadarnhaol gan athrawon a disgyblion, a oedd yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau drama, dawns a cherdd yn arbennig.

Mae CEWC-Cymru yn ddiolchgar i HSBC am ei nawdd i *Ymuno â'r Blaned*. Carem hefyd ddiolch i bawb a fu'n arwain gweithdai yn ystod y digwyddiad.

CANOLBWYNTIO AR… GYFARFODYDD MODEL CYNGOR DIOGELWCH Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Bob blwyddyn, bydd CEWC-Cymru yn cynnal 7 cyfarfod Model y Cenhedloedd Unedig mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r efelychiadau hyn ar drafodaethau rhyngwladol yn cynnig cyfle gwerthfawr i bobl ifainc rhwng 14-18 oed i wella eu sgiliau ym maes cyfathrebu, cydlafareddu, ymchwilio a dinasyddiaeth fyd-eang. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar y rhan a chwareir gan y Cyngor Diogelwch, y corff o fewn y CU sy'n gyfrifol am heddwch a diogelwch. Yn ystod tymor yr Hydref, bu disgyblion yn ystyried y sefyllfa yn Affganistan a'r Swdan, gyda'r nod o ddod o hyd i atebion a fyddai'n dderbyniol yn gydwladol i'r her sy'n wynebu'r ddwy genedl hon, tra'n gweithio o fewn strwythur a rheolau gweithdrefnau'r Cyngor Diogelwch.

Cynhelir pedwar cyfarfod model o'r Cenhedloedd Unedig yn ystod tymor y Gwanwyn. Os yw eich ysgol, goleg neu grŵp ieuenctid chi am gymryd rhan yn y rhain, cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.